# Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

**2010 mccc 1**

## RHAN 1

TLODI PLANT, CYFLEOEDD CHWARAE A CHYMRYD RHAN

### PENNOD 1

DILEU TLODI PLANT

*Yr awdurdodau Cymreig*

**6 Yr awdurdodau Cymreig**

(1) At ddibenion y Mesur hwn, mae pob un o'r canlynol yn "awdurdod Cymreig"—

(a) Gweinidogion Cymru;

(b) awdurdod lleol;

**[**[F1](ba) cyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir drwy reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1);**]**

(c) Bwrdd Iechyd Lleol;

(d) Awdurdod tân ac achub yng Nghymru, sef awdurdod yng Nghymru a gyfansoddwyd drwy gynllun o dan adran 2 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21) neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo;

(e) Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru;

(f) **[**[F2]Corff Adnoddau Naturiol Cymru**]** ;

(g) Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru;

(h) Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru;

(i) Amgueddfa Genedlaethol Cymru;

(j) Cyngor Celfyddydau Cymru;

(k) Llyfrgell Genedlaethol Cymru;

(l) Cyngor Chwaraeon Cymru.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, Adran 6 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 27 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn —

(a) diwygio neu hepgor unrhyw baragraff yn is-adran (1), ac eithrio paragraff (a) a (b);

(b) ychwanegu paragraffau at yr is-adran honno;

(c) diwygio neu hepgor y cyfryw baragraffau ychwanegol;

(d) gwneud unrhyw ddiwygiadau i adran 5 sy'n angenrheidiol neu'n hwylus o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan baragraffau (a) i (c).

(3) Cyn gwneud gorchymyn o dan is-adran (2) i gynnwys person yn is-adran (1) neu i symud person o is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r person hwnnw.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru beidio ag arfer eu pŵer o dan is-adran (2) mewn modd a fyddai'n cynnwys unrhyw un neu unrhyw rai o'r canlynol o fewn is-adran (1)—

(a) person sydd heb swyddogaethau o natur gyhoeddus;

(b) person nad yw ei brif swyddogaethau'n ymwneud â maes neu feysydd yn Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32);

(c) tribiwnlys.

(5) Os bydd Gweinidogion Cymru yn arfer eu pŵer o dan is-adran (2) mewn modd a fyddai'n cynnwys person o fewn is-adran (1) sydd â swyddogaethau o natur gyhoeddus ac o natur breifat, rhaid iddynt gynnwys y person hwnnw mewn perthynas â'r swyddogaethau hynny sydd ganddo sydd o natur gyhoeddus yn unig.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** A. 6(1)(ba) wedi ei fewnosod (3.12.2021) gan Rheoliadau Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Diwygio'r Rhestr o Awdurdodau Cymreig) 2021 (O.S. 2021/1361), rhlau. 1(2), **2**

**F2** Geiriau yn a. 6(1)(f) wedi eu hamnewid (1.4.2013) gan Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 (O.S. 2013/755), ergl. 1(2), **Atod. 3 para. 1** (ynghyd ag Atod. 7)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 6 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 75(3)**

**I2** A. 6 mewn grym ar 10.1.2011 gan O.S. 2010/2994, **ergl. 2(d)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, Adran 6 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 27 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– s. 6(1)(g) words substituted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 27